Cerdyn myfyriwr ychwanegol

Ddim yn siŵr sut rydych yn teimlo neu beth i'w ddweud?

Efallai bydd meddwl am y cwestiynau mawr isod yn eich helpu i wneud synnwyr o'ch syniadau. Cymerwch ddigon o amser i bwyso a mesur eich ymateb gonest. Nid oes neb yn iawn nac yn anghywir. Mae gan bawb yr hawl i'w barn eu hun.

Rwy'n meddwl bod rhoi gwaed ac organau'n syniad da ond mae'n beryglus. Gellir trosglwyddo clefydau.

- Sut rydych chi'n gwybod ei fod yn beryglus – ble mae'r dystiolaeth?
- Ai'r gwir ateb yw bod y syniad yn codi ofn arnoch?
- Caiff rhoddwyr eu sgrinio'n ofalus i leihau'r perygl o drosglwyddo clefyd.

Nid wyf yn deall pam mae'n rhaid i mi ddweud wrth fy nheulu fy mod am roi ar ôl i mi farw. Fy nghorff i yw e', a'm penderfyniad i.

- Gwir – ond yn ôl cyfraith y DU, byddai'n rhaid cysylltu'n awtomatig â'ch teulu i sicrhau nad oeddech wedi newid eich meddwl.
- Os nad ydych wedi trafod y peth gyda nhw, efallai na fydden nhw'n deall pa mor bwysig oedd hyn i chi.
- Does dim digon o bobl yn trafod eu dymuniadau ac mae'r nifer o deuluoedd sy'n dweud na yn un o'r rhwystrau mwyaf i gael mwy o roddwyr.

Rwy'n meddwl bod rhoi gwaed yn syniad da, ond rwy'n casáu nodwyddau.

- A ydy hyn am eich bod yn credu y bydd yn boenus?
- A ydy hyn ddim ond am nad ydych yn hoffi'r syniad o'i wneud?

Gall rhoi mêr esgyrn olygu anesthetig cyffredinol a chyfnod yn yr ysbyty. Ni ddylai fod yn rhaid i mi beryglu fy iechyd er mwyn rhywun arall.

- Pa lefel o risg fyddech chi'n ei gymryd i helpu rhywun dieithr?
- A fyddech yn cymryd mwy o risgiau i helpu rhywun yr ydych yn ei garu?

Rwyf yn deall bod rhoi meinwe neu organau ar ôl marw yn gallu arbed bywyd rhywun, ond nid wyf yn credu mai dyna ffordd natur.

- A ydych chi'n siŵr nad ydych chi ddim ond yn ailddweud rhywbeth a glywsoch gan bobl eraill?
- Efallai bod angen mwy o amser arnoch i feddwl am y peth.
- Mae datblygiadau newydd yn digwydd mewn gofal iechyd drwy'r amser. Ble fydden ni pe na bawn yn manteisio ar y cynnydd sy'n cael ei wneud?
- Ai'r rheswm yw nad ydych yn hoffi'r syniad o rywun yn cyffwrdd â'ch corff ar ôl i chi farw?

Dylai pawb gael eu gorfodi i fod yn rhoddwyr mêr esgyrn neu organau yn awtomatig oni bai eu bod wedi cofrestru i ymeithrio.

- Sut gallai hyn wella'r posibilrwydd o ddod o hyd i 'gydweddiad' ar gyfer mêr esgyrn neu organau?
- Sut gellid gorfodi'r rheol?
- Beth fyddai hyn yn ei ddweud ynghylch hawl person i ddewis beth i'w wneud â'u corff yn ystod bywyd neu ar ôl marwolaeth?

Os yw pobl yn ysmygu, yn yfed neu'n cymryd cyffuriau, ni ddylid caniatáu iddyn nhw dderbyn gwaed, mêr esgyrn nac organau – yn wir, unrhyw beth a roddwyd gan eraill.

- Pam ddylai sut aeth person yn sâl fod o bwys? Eu gwella yw'r prif nod.
- Pwy fyddai'n gwneud y fath benderfyniad?
- A fyddai hyn yn cael unrhyw effaith ar ddulliau pobl o fyw – a fyddai'n gwneud iddyn nhw beidio ag ysmygu ac yfed, er enghraifft?

Ni ddylid caniatáu i lofruddion na throseddwyr difrifol eraill dderbyn mêr esgyrn neu organau.

- Sut byddai rhiant plentyn sydd mewn dirfawr angen am fêr esgyrn neu drawsblaniad organ yn teimlo petai llofrudd a gafwyd yn euog wedi derbyn triniaeth o'u blaen nhw?
- Pa fath o effaith, os oes un, fyddai'n cael ar droseddu?
- Mae'r troseddwyr eisoes yn cael eu cosbi – ni ddylid eu cosbi ddwywaith.

NHS

Gwaed a Thrawsblaniadau

www.giveandletlive.co.uk